

# MARWNAD,

ER

COFFADWRIAETH

AM

## Y PARCH. SAMUEL BREEZE,

*Cynt Gweinidog yr Efenygl yn Aberystwyth, and  
yn ddiweddar yn Nghastell newydd.*

Yr hwn a aned yn agos i Llanidloes, yny flwyddyn 1772, a feddyddiwyd yn y Dolau yn 1793, a ddaeth yn ail bregethu yn Fendryn côch yn 1795, a ordeniwyd yn gyf-weinidog a JOHN JAMES yn Aberystwyth Meh. 12, 1803, a dreuliodd y rhan fwyaf o'i hanner blwyddyn ddiweddar yn Nghastell newydd, lle y bu ef yn llwyddiannus nerludol; ac ar ol dyoddef cystudd dros oddeutu 6 awr, a hunodd yn yr Argl. Medi 28, 1812, yn y 40 fl. o'i oedran. Ei gorph a gladdwyd yn mynwent Cefn-y-wyrr, a phregethodd yn ei gladdedigaeth y Parch. TIM. THOMAS a D. SAUNDERS, y blaenaf oddi-wrth Ioan xi. 11. a'r olaf oddiwrth Preg. vii. 2.

GAN DAVID SAUNDERS.

*Cwell yw dydd marwolaeth a dydd genedigaeth, Preg. vii. 1.*

BREEZE, anwyl, yn bresennol--ddiangodd,  
Ei angeu fu nerthol;  
Heddyw bod yn ddyd bydol,  
Ofer yw, a'f ar ei ôl.

*Aberystwyth,*

ARGRAFFWYD GAN SAMUEL WILLIAMS.

1812.

X205307492

LN 4573

## MARWNAD, &c.

- 1 **D**AW im' newyddion trymion,  
 A blinion yn y bla'n,  
 Tra fyddwyf ar y ddaear,  
 Y galar faedda gân:  
 Mae'r cwyno'n fwy na'r canu,  
 Mae felly arnaf fi,  
 Clywch, frodyr, gwych hyfrydwedd,  
 Ai iach o wêdd y'ch chwi?
- 2 Nôs Fawrth yn min y cyfnos,  
 Mi gefais newydd sŷn,  
 Y nawfed dydd ar hugain  
 O Fedi, ydoedd hyn;  
 Y flwyddyn, mil ac wyth cant,  
 A deuddeg hefyd oedd,  
 Pan ddaeth y gŵyrgam ergyd,  
 A'r gofid hwn ar g'oedd,
- 3 Fod BREEZE, y per-ladmerydd,  
 Fawr ddefnydd yn ei ddydd,  
 Im' wedi rhoddi ffarwel,  
 Am hyn mae'm bron i'n brudd;  
 Ni chaf mo'i swyn gyfeillach  
 Ef, bellach, yn y byd,  
 Ymboeni sydd raid i mi,  
 Heb gwm'ni hwn o hyd.
- 4 Oh! lawer gwaith y buom  
 Yn cyfeillachu'n llôn,  
 Adroddai ffyrdd iachawdwr,  
 Ei Brynwr glân, o'u bron;  
 Llettyodd lawer noswaith,  
 Wrth odiaeth, fan lle'r wy',  
 Ond ofer i'm ei ddysgwyl  
 O fewn i'm man-gre mwy.
- 5 Cwrdd ewarter a chymmanfa,  
 Lle byddai wycha'i wêdd,  
 Un didwyll yn dywedyd  
 Am D'wysog hyfryd hêdd;

- Ni's ceir ef yn y rhei'ny,  
 Mae hyny felly 'n fawr  
 Alarnad, i flinderog  
 A llwythog ar y llawr.
- 6 Os darfu Dafydd ganu  
 Galarnad yn ei le,  
 Am Saul ac am Jonathan,  
 Gwnaf fi'nau am dano 'fe;  
 Can's beth yw cariad gwragedd,  
 Ei gariad ef oedd dwym,  
 I yru 'chydig eiriau,  
 Fe'm rhoddwyd innau'n rhwym.
- 7 Anadlu tua *Llanidlo's*,  
 Neu 'n agos yno wnaeth,  
 A thuag *Aberystwyth*,  
 Oddiwrth ei dylwyth daeth;  
 Lle bu flynyddau amryw,  
 Yn gyfryw un ag oedd  
 Yn dal athrawiaeth iachus,  
 Yn fflasiu iawn ei floedd.
- 8 Mae yno alar hynod,  
 I'w ganfod yn eu gwêdd,  
 Oes, am i BREEZE fynwesol,  
 Hên ffrynd, i fyn'd i'w fêdd;  
 Yn *Mhendryn côch* mae ochain,  
 A llefain dagrau 'n lli',  
 A *Thal y bont* yr unwêdd,  
 Am frawd oedd fawr ei fri.
- 9 Ac hefyd yn *Llanrhystyd*,  
 Mae gofid am y gŵr,  
 Fu 'n mynych godi'r egwan,  
 I'r lân o dan y dw'r;  
 Ac amryw draw ac yma  
 Sydd dan y wasgfa'n dost,  
 Cael gwybod 'r amser deuai,  
 Gan lawer fyddai'n fost.
- 10 Yn eglwys *Aberduar*,  
 A'i mân ganghenau 'nghyd,

*Evan  
 Thomas*

- Mae cwynfan trwm a thrydar,  
Am gyfaill clodfawr clud;  
Llawenydd fyddai yno,  
Pan ddelai heibio hwn,  
Gan lawer gwan f'ai wrthi  
'Nymboeni dan ei bwn.
- 11 Ond yn *Dre' fach*, ysgatfydd,  
A'r *Castell newydd* 'nawr,  
O'i blegid mae, debygaf,  
Y galar mwya' mawr;  
Y dyn, o b'fe daw yno  
Wna gwbl lanw 'i le,  
Fath dd'wedwr a dysgyblwr,  
Gofalwr ag efe.
- 12 Er na's gweinyddodd iddynt,  
Ddyn mwyn, ond cylch saith mis,  
Fe'i carwyd, fe'i priodwyd,  
Fe brofwyd yno 'i brîs;  
Fe'i collwyd, fe alarwyd,  
Fe gladdwyd yn y glÿn,  
Ffarwel, ffarwel, gydymaith,  
Mae hiraeth mawr o hyn.
- 13 Mae adsain ei bregethau,  
'N fy nghlustiau 'nawr y'ughlo,  
Ni pheidiaf, hyd fy marw,  
Mo'u cadw hwy mewn co';  
Mawrygu person Iesu,  
Pregethu felly fu,  
Rhoi' alwad i ni ddwad  
I drefniad Ceidwad eu.
- 14 Athrawiaeth grâs oedd hynod  
O barod yn ei ben,  
Hi wreiddiodd yn ei galon  
I ni, fe'i ca'dd o nen;  
Rho'i laeth i'r gwan aflawen,  
O fronau'r drefen fry,  
Bwyd cryf i'r rhar cadarnaf,  
A dewraf yn ei dŷ.

- 15 Yr Arglwydd Dduw a'i rhoddodd,  
 Ac a'i cymmerodd ef,  
 A bendigedig ydyw  
 Ffyrdd union, ffyrdd y nêf;  
 Da iawn y gwnaeth ef bob peth,  
 Fe dd'wedir hyn ryw ddydd,  
 Gan rai sy' heb ddéall etto,  
 'Nol d'od o'u rhwymau'n rhydd.
- 16 O frodyr, ymgysurwch,  
 Chwiorydd hefyd oll,  
 Er myn'd o BREEZE fynwesol,  
 O ganol serch ar goll;  
 'Does unrhyw beth yn golled,  
 F'o Duw'n ei wneyd i ni,  
 Mae'i waith e'n cyd-dueddu  
 'Chwanegu'n braint a'n bri.
- 17 Gwnaiff Arglwydd y cynhauaf,  
 Roi gweithwyr ar ei waith,  
 Daw gweinidogion ddigon,  
 Er bod ei faes yn faith;  
 Fe lenwir etto'r bylchau,  
 Rhaid can adwyau Duw,  
 Ni feth ef eisiau gweithwyr,  
 Tra fyddo dyn yn fyw.
- 18 Fe all wneyd i gacwnen,  
 A lleuen, neu beth llai,  
 Ehediaid, a charnolion,  
 Yn burion, a phob rhai  
 I chwareu gyda'r eglwys,  
 Yn gymhwys iawn i gyd,  
 I'w chadw neu'i chyf'rwyddo,  
 Tra byddo'i yn y byd.
- 19 BREEZE anwyl, yn bresennol,  
 Oedd dduwiol, wrol iawn,  
 On'd ydyw gyda'i dadau,  
 Lle bydd llawenydd llawn,  
 O ran ei enaid union,  
 Yn wiwlion iawn ei wedd?

Mae cwynfan trwm a thrydar,  
 Am gyfaill clodfawr clud;  
 Llawenydd fyddai yno,  
 Pan ddelai heibio hwn,  
 Gan lawer gwan f'ai wrthi  
 'Nymboeni dan ei bwn.

11 Ond yn *Dre' fach*, ysgatfydd,  
 A'r *Castell newydd* 'nawr,  
 O'i blegid mae, debygaf,  
 Y galar mwya' mawr;  
 Y dyn, o b'le daw yno  
 Wna gwbl lanw 'i le,  
 Fath dd'wedwr a dysgyblwr,  
 Gofalwr ag efe.

12 Er na's gweinyddodd iddynt,  
 Ddyn mwyn, ond cylch saith mis,  
 Fe'i carwyd, fe'i priodwyd,  
 Fe brofwyd yno 'i brîs;  
 Fe'i collwyd, fe alarwyd,  
 Fe gladdwyd yn y glÿn,  
 Ffarwel, ffarwel, gydymaith,  
 Mae hiraeth mawr o hyn.

13 Mae adsain ei bregethau,  
 'N fy nghlustiau 'nawr y'ughlo,  
 Ni pheidiaf, hyd fy marw,  
 Mo'u cadw hwy mewn co';  
 Mawrygu person Iesu,  
 Pregethu felly fu,  
 Rhoi' alwad i ni ddwad  
 I drefniad Ceidwad cu.

14 Athrawiaeth grâs oedd hynod  
 O barod yn ei ben,  
 Hi wreiddiodd yn ei galon  
 I ni, fe'i ca'dd o nen;  
 Rho'i laeth i'r gwan aflawen,  
 O fronau'r drefen fry,  
 Bwyd cryf i'r rhai cadarnaf,  
 A dewraf yn ei dÿ.

15 Yr Arglwydd Dduw a'i rhoddodd,

Ac a'i cymmerodd ef,

A bendigedig ydyw

Ffyrdd union, ffyrdd y nef;

Da iawn y gwnaeth ef bob peth,

Fe dd'wedir hyn ryw ddydd,

Gan rai sy' heb ddéall etto,

'Nol d'od o'u rhwymau'n rhydd.

16 O frodyr, ymgysurwch,

Chwiorydd hefyd oll,

Er myn'd o BREEZE fynwesol,

O ganol serch ar goll;

'Does unrhyw beth yn gollod,

F'o Duw'n ei wneyd i ni,

Mae'i waith e'n eyd-dueddu

'Chwanegu'n braint a'n bri.

17 Gwnaiff Arglwydd y cynhauaf,

Roi gweithwyr ar ei waith,

Daw gweinidogion ddigon,

Er bod ei faes yn faith;

Fe lenwir etto'r bylchau,

Rhaid can adwyau Duw,

Ni feth ef eisiau gweithwyr,

Tra fyddo dyn yn fyw.

18 Fe all wneyd i gacwnen,

A lleuen, neu beth llai,

Ehediaid, a charnolion,

Yn burion, a phob rhai

I chwareu gyda'r eglwys,

Yn gymhwys iawn i gyd,

I'w chadw neu'i chyf'rwyddo,

Tra byddo'i yn y byd.

19 BREEZE anwyl, yn bresennol,

Oedd dduwiol, wrol iawn,

On'd ydyw gyda'i dadau,

Lle bydd llawenydd llawn,

O ran ei enaid union,

Yn wiwlon iawn ei wêdd?

## ACROSTIC,

*Sef dan air o Hymn, a'r llythyrenau blaenaf  
yn gwnëyd Enw Samuel Breeze.*

S ABBATH pur sydd yn y gwynfyd,  
A dedwydd-fryd hyfryd hîr,  
M eddiant ar bleserau purion,  
U ndeb a chydgorriad gwîr,  
E benezer, Ebenezer, &c.  
L einw'r ganiad lân i gyd.  
B ywyd glân heb ofn marwolaeth,  
R hydd diteddiaeth a difa,  
E nnull mwy na meddu bydoedd,  
E f yn drysor mawr didrai,  
Z êl yn ennyn, zêl yn ennyn, &c.  
E u caniadau acw'n un.

D. S.

## TO THE MEMORY

OF

THE REVEREND SAMUEL BREEZE.

**I**n faithful service, in a glorious cause,  
Excite esteem, and merit our applause;  
If laurel-wreaths the Hero's brow adorn,  
Reap'd midst the dead, the dying, and forlorn;  
If he, victorious on the ensanguin'd plain,  
Bright honours seek, and wealth and titles gain;  
What meed awaits, what blessings shall attend  
Thee, honor'd BREEZE--our dear departed Friend!  
Who 'gainst our deadly Foe oit took the field,  
The word and grace of God--thy spear and shield!  
What shall reward the man who truly brave  
Fought the good fight, men's precious souls to save?  
Such blessings as on earth he ne'er could know,  
And which a Saviour only can bestow,  
Releas'd from trouble, sorrow, sin, and strife,  
The good man dies--to gain Immortal Life!  
And wears, bless'd token of redeeming love,  
A crown of glory in the Realms above!

THE END.